

Datrys Anghydfod





Datrysiad Cynnar

Y broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol:

- Sicrhau bod barn, dymuniadau a'ch teimladau chi a'ch plentyn neu'r person ifanc wedi eu cynrychioli
- Helpu goresgyn pryderon ac unrhyw anghydfod sy'n digwydd

Mae datrys unrhyw anghydfod yn gynnar yn elwa pawb ac yn medru osgoi unrhyw straen diangen.

Os ydych yn methu cytuno ar benderfyniad sydd yn ymwneud gyda darpariaeth, efallai eich bod angen help gwrthrychol.

SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn wasanaeth Partneriaeth Rhieni Annibynnol sydd am ddim i deuluoedd ac yn cynnig gwybodaeth gywrain, cyngor a chymorth i:

- Dwyn ynghyd yr holl bartion perthnasol
- Cefnogi anghenion y plentyn a'r person ifanc
- Help sicrhau bod unrhyw anghydfod yn cael ei ddatrys yn gynnar ac yn anffurfiol drwy drafod a chytuno
- Trafod yr ystod lawn o opsiynau

Mae SNAP Cymru yn elusen ar draws Cymru gyfan sydd yn gweithio gyda theuluoedd, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ar faterion sydd yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anabledau.

Mae llinell gymorth gan SNAP Cymru sydd ar o ddydd Llun i ddydd Iau, 9.30am - 4.30pm

Llinell gymorth: 0808 801 0608
www.snapcymru.org/help-for-families

Iechyd

Os yw eich pryderon neu anghydfod yn ymwneud gyda'r gwasanaeth Iechyd, bydd yr Awdurdod Lleol a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg a apwyntir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn ceisio dod o hyd i ddatrysiad.

Mae gwybodaeth am Sut i Weithio i Wella Pethau ar gael yma:

www.wales.nhs.uk/ourservices/publicaccountability/puttingthingsright
Ffôn: 01495 745656



Datrys Anghydfod



CYSYLLTWCH GYDA NI:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent,
Llys Einion,
Stryd yr Eglwys,
Abertyleri.
Blaenau Gwent
NP13 1DB

Ffôn: 01495 355443
E-bost: ALNEnquiries@blaenaugwent.gov.uk

**Diolch yn fawr iawn i CBS Sir Fynwy am rannu'r
daflen hon**